# Hysbysebu trwyddedau ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach

Rownd Wyth

Cyhoeddwyd: 10 Medi 2025
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 10 Rhagfyr 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........ 3

2. Y trwyddedau sy’n cael eu hysbysebu ........ 5

Aberystwyth ........ 10
Aberhonddu ........ 12
Trefynwy ........ 14
Gogledd Powys ........ 16
De Powys ........ 18

3. Sut mae gwneud cais ........ 20

Cyflwyno ffurflen gais a ffioedd ........ 20

Cyflwyno ffurflen gais a ffioedd ........ 20

# 1. Trosolwg

1.1 Yn y ddogfen hon, mae Ofcom yn cynnig rhoi trwyddedau i ddarparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, ac mae'n gwahodd ceisiadau am drwyddedau ar gyfer yr ardaloedd canlynol:

- Aberystwyth
- Andover
- Armagh
- Ballymena
- Barnsley
- Barnstaple a Bideford
- Aberhonddu
- Burton-on-Trent a Lichfield
- Bury St Edmunds, Thetford a Mildenhall
- Cheltenham a Tewkesbury
- Chesterfield
- Chippenham a Malmesbury
- Coleraine
- Cookstown a Dungannon
- Dwyrain Cernyw
- Dwyrain Caeredin ac arfordir De Forth
- Falmouth, Penzance a Redruth
- Gairloch
- Girvan a Cumnock
- Grantham a Sleaford
- Grimsby
- Kilmarnock
- Leamington Spa a Stratford-upon-Avon
- Mansfield a Worksop
- Trefynwy
- Newbury
- Newquay, St Austell a Truro
- Gogledd Powys
- Omagh
- Perth
- Peterlee
- Pitlochry ac Aberfeldy
- Scunthorpe
- Skye a Lochalsh
- South Hams
- De Powys
- Stroud
- Telford ac Amwythig
- Tiverton
- Ullapool

1.2 Ar ben hynny, rydym hefyd yn gwahodd ceisiadau yn y rownd hon ar gyfer yr ardaloedd canlynol sy'n cael eu hysbysebu eto:

- Berwickshire a Roxburgh
- Caer
- Derby
- Dundee a Gogledd-ddwyrain Fife
- Guildford a Woking
- Lincoln
- Kintyre, Islay a Jura
- De-orllewin Fife
- Weymouth a Dorchester

1.3 Yn dilyn ceisiadau ac adborth gan ymgeiswyr posibl ers i ni gyhoeddi ardaloedd Rownd Wyth arfaethedig yn gynharach eleni, rydym wedi penderfynu ail-hysbysebu ardaloedd Caer a Lincoln hefyd, ond nid ail-hysbysebu Erewash. Noder, o'i gymharu â'r hysbyseb drwydded wreiddiol yn 2021, bod ardal drwydded Caer ychydig yn llai ac nid yw bellach yn cynnwys Porthladd Ellesmere.

1.4 Mae ardal drwydded Berwickshire a Roxburgh a ail-hysbysebwyd bellach yn ymgorffori trefi Hawick a Jedburgh nad oeddent wedi'u dyrannu o'r blaen i unrhyw ardal drwydded amlblecs ar raddfa fach. Mae ardal drwydded ddiwygiedig Dundee a Gogledd-ddwyrain Fife yn cynnwys ardaloedd a oedd gynt wedi'u cynnwys yn ardaloedd trwydded Dundee a Dwyrain Fife. Mae ardal drwydded ddiwygiedig De-orllewin Fife yn cynnwys rhai ardaloedd a oedd gynt wedi'u cynnwys yn ardaloedd trwydded Dunfermline a Kinross, a Glenrothers a Kirkcaldy.

1.5 Gwasanaeth amlblecs radio yw'r ffordd o ddarlledu gorsafoedd radio digidol DAB, a gall ddarparu oddeutu 10 gorsaf radio stereo (ac oddeutu 20 gwasanaeth stereo os yw DAB+ yn cael ei ddefnyddio).

1.6 Mae hysbysebu'r trwyddedau hyn yn ffurfio Rownd Wyth rhaglen drwyddedu DAB ar raddfa fach Ofcom, a dyma'r rownd ffurfiol olaf o drwyddedu o'r fath. Cofiwch mai dim ond un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach rydym ni'n bwriadu ei dyfarnu ar gyfer pob ardal y byddwn ni'n ei hysbysebu (hy does gennym ni ddim bwriad i ddyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach ychwanegol ar gyfer ardal benodol ar ôl i wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach gael ei drwyddedu gennym ni i wasanaethu'r ardal honno).

1.7 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach mewn proses gystadleuol. Mae hyn yn golygu bod ceisiadau'n cael eu barnu yn erbyn meini prawf penodol, ac mae Ofcom yn dyfarnu pob trwydded i'r ymgeisydd y mae'n credu sy'n bodloni'r meini prawf orau.

1.8 Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach sydd wedi'u rhestru uchod yw **5pm** ar **10 Rhagfyr 2025**. Y ffi ymgeisio na ellir ei had-dalu yw £500.

1.9 Mae Ofcom hefyd yn gwahodd ceisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl a fyddai'n dymuno darlledu gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (C-DSP) ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r ddogfen hon yn hysbysebu trwydded ar ei gyfer.

# 2. Y trwyddedau sy'n cael eu hysbysebu

2.1 Mae'r adran hon yn cynnwys map ar gyfer pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach rydym ni'n ei hysbysebu yn Rownd Wyth. Mae'r map yn dangos yr ardal ddaearyddol neu'r ardal leol y bwriedir i'r drwydded ddarparu gwasanaeth ar ei chyfer, a data perthnasol ar gyfer ardal pob trwydded, gan gynnwys y ddarpariaeth i'r boblogaeth oedolion.

2.2 Mae'r tabl isod yn egluro'r data a ddarparwn yn fwy manwl:

| Data | Disgrifiad |
|---|---|
| **Poblogaeth ardal y drwydded** | Cyfanswm y boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn yr ardal y bwriedir i'r drwydded amlblecs a hysbysebir ei gwasanaethu (hy y boblogaeth sydd o fewn y llinell goch ar y map). Daw hyn, a'r holl ddata arall am boblogaeth yn y tablau hyn, o ddata Cyfrifiad 2011. |
| **Maint ardal y drwydded** | Maint daearyddol, mewn cilometrau sgwâr, yr ardal y bwriedir i'r drwydded amlblecs a hysbysebir ei gwasanaethu (hy yr ardal sydd o fewn y llinell goch ar y map). Mae'r ffigur yn cynnwys ardaloedd o fôr pan fydd hynny'n berthnasol. |
| **Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo** | Mae'r ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn neilltuo capasiti darlledu ar gyfer o leiaf dri gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP'). Mae hefyd yn mynnu ein bod ni'n nodi'r capasiti hwn wrth hysbysebu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach. Ar gyfer pob trwydded rydym ni'n ei hysbysebu, mae Ofcom wedi pennu nifer y gwasanaethau C-DSP y mae'n rhaid neilltuo capasiti ar eu cyfer. Gwnaed y penderfyniadau hyn ar sail y ffactorau sydd wedi'u nodi ym mharagraff 6.13 ein datganiad trwyddedu DAB ar raddfa fach.<br><br>Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod o leiaf 36 o unedau capasiti[1] yn cael eu neilltuo ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP. Er enghraifft, mae neilltuo capasiti ar gyfer tri gwasanaeth yn golygu bod yn rhaid neilltuo 108 o unedau capasiti (hy 3 x 36 o unedau capasiti) at ddefnydd gwasanaethau C-DSP yn unig. Ni all trwyddedai'r amlblecs ddefnyddio'r capasiti hwn at unrhyw ddiben heblaw ar gyfer cludo gwasanaethau radio sydd â thrwydded C-DSP. |

[1] Mae 36 o unedau capasiti yn cyfateb i gyfradd ddidau DAB+ o 48 kdid yr eiliad ar lefel gwarchodaeth EEP3A.

| Data | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded)** | Dyma enw gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod ac yn gorgyffwrdd â'r ardal a fydd yn cael ei gwasanaethu gan y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r drwydded yn cael ei hysbysebu ar ei chyfer. Mae cyfanswm y boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod (a all fod yn fwy na'r ardal y mae'n ei gwasanaethu drwy ei rwydwaith trawsyrru presennol) wedi'i nodi mewn cromfachau. Pan fydd mwy nag un gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod yn gorgyffwrdd ag ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach sy'n cael ei hysbysebu, mae rhesi ychwanegol o'r enw 'Gwasanaeth DAB lleol 2 [..]' a 'Gwasanaeth DAB lleol 3 [...]' yn cael eu cynnwys fel sy'n briodol. |
| **Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran)** | Y boblogaeth o oedolion (15 oed a hŷn) sydd o fewn ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir, sydd hefyd o fewn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n gorgyffwrdd a nodwyd uchod. Mae'r boblogaeth hon sy'n gorgyffwrdd yn cael ei darparu fel ffigur pendant, a hefyd fel canran o gyfanswm poblogaeth ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol, mewn cromfachau.<br><br>Mae maint y gorgyffwrdd rhwng ardaloedd trwyddedig gwasanaethau amlblecs radio lleol ac ar raddfa fach yn berthnasol, gan fod gofyniad cyfreithiol i gyfyngu gorgyffwrdd o'r fath i ddim mwy na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod. |
| **Y bloc amledd a gynigir** | Yr amledd trawsyrru nominal sydd wedi cael ei ddyrannu i ardal y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir, ac yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth. Dylai ymgeiswyr gofio mai amledd dros dro yw'r un a roddir yma, sy'n adlewyrchu bwriad Ofcom adeg hysbysebu. Fe allai'r amledd newid am resymau rheoli sbectrwm cyn i'r drwydded gael ei dyfarnu, ond rhaid i ymgeiswyr seilio eu ceisiadau ar yr amledd a nodwyd. |

| Data | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ardaloedd bloc ar y cyd ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach a/neu amlblecsau lleol** | Mae'n rhestru unrhyw wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach cyfagos a/neu unrhyw wasanaethau amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod (neu arfaethedig) sy'n rhannu neu a allai rannu'r bloc amledd trawsyrru nominal uchod.<br><br>Mae taenlen sy'n cynnwys dolenni i ddata ardal y drwydded a data poblogaeth ar gyfer yr ardaloedd bloc ar y cyd posibl hyn ar gael ar wefan Ofcom: Cefnogi data technegol a dolenni ar gyfer lleoliadau Rownd Wyth. Mae'r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae'n bosib ei fewngludo i becynnau meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). Mae'r daenlen hefyd yn cynnwys dolenni i fapiau unigol ar gyfer pob ardal drwyddedig amlblecs radio lleol ac ar raddfa fach.<br><br>Mae'r wybodaeth am wasanaethau DAB sy'n defnyddio bloc ar y cyd yn berthnasol, gan fod cyfyngiadau ar gryfder y signal y gall gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach ei osod yn ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio arall sy'n defnyddio'r un bloc amledd. Mae'r cyfyngiadau hyn ar gryfder y signal yn 38 dBµV/m ar uchder o 10m yn achos ardaloedd trwyddedig amlblecsau radio ar raddfa fach eraill, a 29 dBµV/m ar uchder o 10m pan fydd gwasanaethau amlblecs radio lleol yn defnyddio amleddau bloc ar y cyd. Yn y tablau isod ar gyfer pob map, mae gwasanaethau amlblecs radio lleol yn cael eu nodi gan y llythrennau 'LRMS' yn dilyn enw'r ardal. Mae enwau ardaloedd eraill yn dynodi ardaloedd amlblecs ar raddfa fach gwirioneddol neu arfaethedig eraill. |
| **Gwybodaeth ychwanegol** | Rhagor o wybodaeth neu gyfyngiadau y mae Ofcom yn credu y dylai'r ymgeisydd ar gyfer ardal benodol y drwydded fod yn ymwybodol ohonynt. Gall hyn gynnwys pethau fel cyngor ar feysydd lle mae mwy o ymyriant na'r disgwyl, pryderon penodol am ymyriant o'r tu allan, a defnyddio rhai safleoedd trawsyrru. |

| Data | Disgrifiad |
|---|---|
| **Materion rhyngwladol** | Gwybodaeth am y cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r lefelau signal y gall y gwasanaeth amlblecs ar raddfa fach eu rhoi mewn gwledydd cyfagos. Mae'r cyfyngiadau ar allu'r DU i roi signalau mewn gwledydd eraill yn amrywio yn ôl bloc amledd ac maent hefyd yn cael eu mynegi fel cyfanswm yr holl wasanaethau sy'n gweithredu ar y blociau hynny.<br><br>Mae'r wybodaeth a nodir yn yr hysbyseb yn cynrychioli amcangyfrif Ofcom o'r cyfyngiadau y bydd angen iddynt fod yn berthnasol i'r cynlluniau technegol ar gyfer pob ardal a hysbysebir er mwyn galluogi'r DU i gydymffurfio â'r cytundebau sydd gennym â gwledydd cyfagos. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar ein rhagdybiaethau ynghylch nifer yr ardaloedd a fydd yn defnyddio bloc amledd penodol (gan gynnwys rhai nad ydynt wedi cael eu hysbysebu eto), a'r cynlluniau technegol y bydd ymgeiswyr yn eu cyflwyno. Efallai y bydd y terfynau gwirioneddol y bydd angen i drwyddedeion gydymffurfio â nhw yn wahanol, ac mewn rhai achosion gallent fod ychydig yn llai cyfyngol, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae trwyddedau'n cael eu dyfarnu, a'r cynlluniau trosglwyddyddion y mae'r ymgeiswyr llwyddiannus hynny wedi cynnig eu rhoi ar waith. |
| **<Dolen i ddata ardal y drwydded>** | Dolen i ffeiliau data sy'n disgrifio ardal ddaearyddol y drwydded. Mae'r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae'n bosib ei fewngludo i becyn meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). |
| **<Dolen i ddata poblogaeth>** | Dolen i ffeiliau data sy'n cynnwys dosbarthiad y boblogaeth yn ardal y drwydded. Mae'r data hwn ar gael mewn Fformat Cyfnewid MapInfo, ac mae'n bosib ei fewngludo i becyn meddalwedd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS). |

2.3 Bydd pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn cael ei rhoi am gyfnod o saith mlynedd o'r dyddiad dechrau darlledu, gyda chyfnod adnewyddu o bum mlynedd arall ar gael. Rhaid i wasanaethau fod ar yr awyr o fewn 18 mis i ddyfarnu'r drwydded. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yn y ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach a dylai ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl i Ofcom ei ddefnyddio'n llym.

2.4 Ar yr un pryd ag y mae Ofcom yn hysbysebu trwyddedau Rownd Wyth ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach, rydym hefyd yn gwahodd ceisiadau gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni posibl a fyddai'n dymuno darlledu gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP') ar unrhyw un o'r gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach y mae'r ddogfen hon yn hysbysebu trwydded ar eu cyfer. Nid oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais am drwydded C-DSP i Ofcom. Mae hyn yn golygu bod y ffenestr ar gyfer gwneud cais am drwydded C-DSP ar gyfer gwasanaeth sydd i'w ddarparu ar unrhyw un o'r gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach y mae trwydded yn cael ei hysbysebu ar eu cyfer yn Rownd Wyth nawr yn 'agored' am y dyfodol rhagweladwy. Dylai ymgeiswyr posibl am drwydded C-DSP hefyd nodi nad yw'r broses o wneud cais am drwydded C-DSP yn mynnu eu bod yn dewis un neu fwy o ymgeiswyr am y drwydded ar gyfer y gwasanaeth amlblecs radio DAB ar raddfa fach maen nhw'n dymuno ei ddefnyddio i ddarlledu. Os yw'r ymgeiswyr yn dymuno, gallant aros nes bydd y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach wedi cael ei dyfarnu, cyn cyflwyno cais am drwydded C-DSP. Fodd bynnag, byddem yn cynghori ymgeiswyr amlblecs a darparwyr C-DSP

posibl i gysylltu â'i gilydd yn gynnar yn y broses, oherwydd bydd angen cytundeb cludo ar ddarlledwr yn ogystal â thrwydded Ofcom.

2.5 Nid oes dim i rwystro ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach rhag gwneud cais hefyd am drwydded C-DSP i ddarlledu ar y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach hwnnw (hy gall trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach ddarlledu gwasanaeth C-DSP ar ei amlblecs ei hun hefyd). Yn wir, un o'r materion y mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn eu hystyried wrth ddyfarnu trwydded amlblecs ar raddfa fach yw pa mor ddymunol yw dyfarnu i ymgeisydd sy'n cynnig darparu gwasanaeth C-DSP yn yr ardal honno, neu i ymgeisydd sydd – fel cyfranogwr – â rhywun sy'n cynnig gwneud hynny.

2.6 Mae'r ffurflenni cais (Rhan A a Rhan B) a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer ymgeiswyr a thrwyddedeion C-DSP ar gael ar wefan Ofcom.


2.7 Mae Ofcom yn cadw'r hawl i newid neu gywiro unrhyw ran o'r Hysbysiad hwn ar unrhyw adeg cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Hefyd, mae unrhyw ddogfennau ychwanegol y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn yn gallu cael eu newid o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau, cywiriadau neu wybodaeth atodol o'r fath ar gael ar ein gwefan.

2.8 Nid yw'r wybodaeth yn yr Hysbysiad hwn yn cynnwys yr holl ofynion statudol a thrwyddedu, ac ni ddylid ei hystyried yn ddatganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Nid yw unrhyw wybodaeth a roddwn ychwaith, boed yn yr Hysbysiad hwn neu mewn mannau eraill, yn awgrymu unrhyw farn gennym ynghylch rhagolygon masnachol y ceisiadau, nac y bydd gwasanaethau trwyddedig yn broffidiol.

2.9 Rhaid i ymgeiswyr wneud eu hasesiad annibynnol eu hunain ar ôl cael cyngor proffesiynol eu hunain, a chynnal unrhyw ymchwiliadau pellach o'r fath sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw ar bob mater perthnasol.

2.10 Nid ydym yn rhoi unrhyw sylwadau na gwarant, yn benodol nac yn ymhlyg, mewn perthynas â'r wybodaeth yn yr Hysbysiad hwn (ynghyd â'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall y byddwn ni'n ei chyhoeddi sy'n ymwneud â materion sy'n berthnasol i'r Hysbysiad hwn, gan gynnwys unrhyw wybodaeth y gallem ei chyhoeddi mewn perthynas â'r ceisiadau a ddaw i law) nac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth ysgrifenedig neu lafar a roddir neu a ddarperir i unrhyw ymgeisydd posibl neu ei gynghorwyr proffesiynol. Felly ymwadir yn benodol ag unrhyw atebolrwydd, ac nid ydym felly'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golledion, treuliau na difrod a ddioddefir neu a achosir fel arall o ganlyniad i baratoi unrhyw geisiadau ar sail neu yn unol â'r Hysbysiad hwn neu fel arall gan ddibynnu ar wybodaeth a nodir yma, boed ceisiadau'n cael eu cyflwyno ai peidio, a boed y ceisiadau'n llwyddiannus ai peidio.

## Aberystwyth




**Poblogaeth o fewn yr ardal a hysbysebir:** 35,622

**Maint yr ardal a hysbysebir (km2):** 1,126 $km^2$

**Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo:** TRI gwasanaeth

**Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Canolbarth a Gorllewin Cymru (379,159)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran):** 34,813 (9.18%)

**Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Gogledd-orllewin Cymru (362,319)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran):** 809 (0.22%)

**Y bloc amledd a gynigir:** Bloc 9B

**Ardaloedd bloc ar y cyd posibl ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach i'w diogelu:**

Rhaid i'r gwasanaeth hwn beidio ag achosi unrhyw ymyriant sylweddol sy'n fwy na 38 dBµV/m i'r ardaloedd DAB graddfa fach canlynol: Ludlow, a Wrecsam.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae rhagfynegiadau Ofcom yn dangos y gallai fod angen i drosglwyddyddion arfordirol ddefnyddio antenâu cyfeiriadol os ydynt am fodloni meini prawf ymyrraeth ryngwladol.

Os yw ymgeiswyr yn dymuno defnyddio safle trosglwyddydd DAB presennol Blaen Plwyf, mae rhagfynegiadau Ofcom yn dangos y gallai fod angen antena pŵer isel, uchder antena isel a/neu antena cyfeiriadol i fodloni rhai meini prawf ymyrraeth allfudol.

Nid yw Ofcom yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn ddioddef unrhyw ymyrraeth sylweddol sy'n dod i mewn o wasanaethau DAB ar raddfa fach eraill yn y DU.


Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB (paragraff 4.14 ymlaen).

**Materion rhyngwladol:**

Dylid cadw ymyrraeth i Weriniaeth Iwerddon i'r lleiafswm. Rydym yn gofyn bod rhwydweithiau'n cael eu cynllunio i leihau lefelau cryfder maes tuag at ffin y môr a'r tir yng Ngweriniaeth Iwerddon trwy ddewis safleoedd yn ofalus, cyfyngu ar bwerau trosglwyddyddion mwyaf a defnyddio antenâu trosglwyddo cyfeiriadol yn ôl yr angen. Dylid nodi, os bydd datblygiadau yn y dyfodol yng Ngweriniaeth Iwerddon yn arwain at yr angen iddynt ddefnyddio sbectrwm Band III, bod gan Iwerddon yr hawl i weithredu rhwydweithiau yn unol â chytundebau rhyngwladol presennol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd Ofcom yn gweithio gyda deiliad(ion) y drwydded SSDAB i ddatrys unrhyw broblemau ymyrraeth posibl, a gallai hyn olygu newid amledd trosglwyddo neu fesurau eraill.

Gweler data’r ardal a hysbysebir a’r data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn.

## Aberhonddu




**Poblogaeth o fewn yr ardal a hysbysebir:** 93,759

**Maint yr ardal a hysbysebir (km2):** 1,259 $km^2$

**Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo:** TRI gwasanaeth

**Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Canolbarth a Gorllewin Cymru (379,159)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran):** 21,863 (5.77%)

**Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** De-ddwyrain Cymru (1,154,815)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran):** 71,896 (6.23%)

**Y bloc amledd a gynigir:** Bloc 9C

**Ardaloedd bloc ar y cyd posibl ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach i'w diogelu:**

Rhaid i'r gwasanaeth hwn beidio ag achosi unrhyw ymyriant sylweddol sy'n fwy na 38 dBµV/m i'r ardaloedd DAB graddfa fach canlynol: Telford ac Amwythig, Cheltenham a Tewkesbury, Weston-Super-Mare, a Llanelli.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Os yw ymgeiswyr yn dymuno defnyddio safleoedd trosglwyddyddion DAB presennol y Fenni neu Heolgerrig, mae rhagfynegiadau Ofcom yn dangos y gallai fod angen antena pŵer isel, uchder antena isel a/neu gyfeiriadol i fodloni rhai meini prawf ymyrraeth allblyg.

O fewn yr ardal a hysbysebir hon, efallai y bydd rhai rhannau uchel o Fannau Brycheiniog yn destun lefelau uwch o ymyrraeth sy'n dod i mewn o amlblecsau DAB ar raddfa fach a allai fod ar yr awyr eisoes neu a allai ddod ar yr awyr yn y dyfodol.


Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB (paragraff 4.14 ymlaen).

**Materion rhyngwladol:**

Nid yw Ofcom yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn achosi na bod yn destun unrhyw broblemau ymyriant rhyngwladol.

Gweler data'r ardal a hysbysebir a'r data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn.

## Trefynwy




**Poblogaeth o fewn yr ardal a hysbysebir:** 12,042

**Maint yr ardal a hysbysebir (km2):** 188 $km^2$

**Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo:** TRI gwasanaeth

**Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Henffordd a Sir Gaerwrangon (626,760)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran):** 1,142 (0.18%)

**Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** De-ddwyrain Cymru (1,154,815)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran):** 10,900 (0.94%)

**Y bloc amledd a gynigir:** Bloc 7D

**Ardaloedd bloc ar y cyd posibl ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach i'w diogelu:**

Rhaid i'r gwasanaeth hwn beidio ag achosi unrhyw ymyriant sylweddol sy'n fwy na 38 dBµV/m i'r ardaloedd DAB graddfa fach canlynol: De Powys, Caerwrangon, Chippenham a Malmesbury, Gogledd Gwlad yr Haf ac Abertawe.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

O ganlyniad i agosrwydd a thopograffeg, gall fod yn heriol i ymgeiswyr gynnal ymyrraeth allanol islaw'r lefelau a bennir yn y Nodiadau Canllaw ar rannau o Fryniau Mendip o fewn ardal DAB ar raddfa fach Gogledd Gwlad yr Haf a rhai ardaloedd bach uchel o fewn ardal DAB ar raddfa fach De Powys. Mae Ofcom yn disgwyl i ymgeiswyr roi sylw arbennig i gadw unrhyw ymyrraeth o'r fath i'r lleiafswm.

O fewn yr ardal a hysbysebir hon, gall rhai ardaloedd uchel i'r gogledd o Buckholt a'r Kymin fod yn destun lefelau uwch o ymyrraeth sy'n dod i mewn o amlblecsau DAB ar raddfa fach a allai fod ar yr awyr eisoes neu a allai ddod ar yr awyr yn y dyfodol.


Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB (paragraff 4.14 ymlaen).

**Materion rhyngwladol:**

Nid yw Ofcom yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn achosi na bod yn destun unrhyw broblemau ymyriant rhyngwladol.

Gweler data'r ardal a hysbysebir a'r data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn.

## Gogledd Powys




**Poblogaeth o fewn yr ardal a hysbysebir:** 115,556

**Maint yr ardal a hysbysebir (km2):** 2,380 km$^2$

**Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo:** TRI gwasanaeth

**Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Gogledd-ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer(754,880)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran):** 36,366 (4.82%)

**Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Gogledd-orllewin Cymru (362,319)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran):** 40,458 (11.17%)

**Gwasanaeth DAB lleol 3 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Wolverhampton a Swydd Amwythig (1,317,388)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 3 (a chanran):** 38,372 (2.91%)

**Y bloc amledd a gynigir:** Bloc 8B

**Ardaloedd bloc ar y cyd posibl ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach i'w diogelu:**

Rhaid i'r gwasanaeth hwn beidio ag achosi unrhyw ymyriant sylweddol sy'n fwy na 38 dBµV/m i'r ardaloedd DAB graddfa fach canlynol: Blackpool, Warrington, Widnes a Runcorn, Burton-on-Trent, Bromsgrove, Kidderminster a Redditch, a Llandudno a Betws-y-Coed.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Os yw ymgeiswyr yn dymuno defnyddio safleoedd trosglwyddyddion DAB presennol Llangollen neu Long Mountain, mae rhagfynegiadau Ofcom yn dangos y gallai fod angen antena pŵer isel, uchder antena isel a/neu gyfeiriadol i fodloni rhai meini prawf ymyrraeth allblyg.

O ganlyniad i agosrwydd a thopograffeg, gall fod yn heriol i ymgeiswyr gynnal ymyrraeth allblyg islaw'r lefelau a bennir yn y Nodiadau Canllaw o fewn rhannau bach o ardal DAB graddfa fach Warrington, Widnes a Runcorn a rhannau de-ddwyreiniol uchel o ardal DAB graddfa fach Llandudno a Betws-y-Coed. Mae Ofcom yn disgwyl i ymgeiswyr roi sylw arbennig i gadw unrhyw ymyrraeth o'r fath i'r lleiafswm.

O fewn yr ardal a hysbysebir hon, gall rhai ardaloedd uchel fel Mynydd Rhiwabon a Berwyn fod yn destun lefelau uwch o ymyrraeth sy'n dod i mewn o amlblecsau DAB graddfa fach a allai fod ar yr awyr eisoes neu a allai ddod ar yr awyr yn y dyfodol.


Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB (paragraff 4.14 ymlaen).

**Materion rhyngwladol:**

Nid yw Ofcom yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn achosi na bod yn destun unrhyw broblemau ymyriant rhyngwladol.

Gweler data'r ardal a hysbysebir a'r data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn.

## De Powys




**Poblogaeth o fewn yr ardal a hysbysebir**: 62,316

**Maint yr ardal a hysbysebir (km2):** 2,776 $km^2$

**Capasiti C-DSP sydd wedi'i neilltuo:** TRI gwasanaeth

**Gwasanaeth DAB lleol 1 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Henffordd a Swydd Gaerwrangon (626,760)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 1 (a chanran):** 8,176 (1.30%)

**Gwasanaeth DAB lleol 2 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Canolbarth a Gorllewin Cymru (379,159)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 2 (a chanran):** 31,781 (8.38%)

**Gwasanaeth DAB lleol 3 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Gogledd-orllewin Cymru (362,319)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 3 (a chanran):** 19,288 (5.32%)

**Gwasanaeth DAB lleol 4 (a phoblogaeth ardal y drwydded):** Wolverhampton a Swydd Amwythig (1,317,388)

**Gorgyffwrdd â phoblogaeth gwasanaeth DAB lleol 4 (a chanran):** 3,071 (0.23%)

**Y bloc amledd a gynigir:** Bloc 7D

**Ardaloedd bloc ar y cyd posibl ar gyfer trwyddedau DAB ar raddfa fach i'w diogelu:**

Rhaid i'r gwasanaeth hwn beidio ag achosi unrhyw ymyriant sylweddol sy'n fwy na 38 dBµV/m i'r ardaloedd DAB graddfa fach canlynol: Lerpwl, Crewe, Nantwich a Whitchurch, Wolverhampton, Caerwrangon, Trefynwy, Gogledd Gwlad yr Haf, ac Abertawe.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

O ganlyniad i agosrwydd a thopograffeg, gall fod yn heriol i ymgeiswyr gynnal ymyrraeth allanol islaw'r lefelau a bennir yn y Nodiadau Canllaw o fewn ymyl ogleddol ardal DAB ar raddfa fach Gogledd Gwlad yr Haf ar rannau o Fryniau Mendip. Mae Ofcom yn disgwyl i ymgeiswyr roi sylw arbennig i gadw unrhyw ymyrraeth o'r fath i'r lleiafswm.

O fewn yr ardal a hysbysebir hon, gall rhai copaon bryniau uchel fod yn destun lefelau uwch o ymyrraeth sy'n dod i mewn o amlblecsau DAB ar raddfa fach a allai fod ar yr awyr eisoes neu a allai ddod ar yr awyr yn y dyfodol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghanllawiau Polisi Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB (paragraff 4.14 ymlaen).

**Materion rhyngwladol:**

Nid yw Ofcom yn disgwyl i'r gwasanaeth hwn achosi na bod yn destun unrhyw broblemau ymyriant rhyngwladol.

Gweler data'r ardal a hysbysebir a'r data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn.

# 3. Sut mae gwneud cais

## Cyflwyno ffurflen gais a ffioedd

3.1 Wrth wneud cais am unrhyw un o'r trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir yn y ddogfen hon, rhaid defnyddio'r ffurflen gais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach. Rhennir y ffurflen gais yn ddwy ran: Rhan A (y byddwn yn ei chyhoeddi ar ein gwefan) a Rhan B (a fydd yn aros yn gyfrinachol). O ran yr ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais – yn amodol ar y cyfyngiadau perchnogaeth – am fwy nag un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, bydd angen ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob cais.

3.2 Cyn llenwi'r cais, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn darllen y canllawiau ar drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn ofalus. Yn ogystal â darparu rhagor o wybodaeth am y cwestiynau rydym yn eu gofyn yn y ffurflenni cais, mae'r Canllawiau yn rhoi arweiniad manwl ar y drefn trwyddedu amlblecs DAB ar raddfa fach yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys materion fel y cyfyngiadau perchnogaeth, y meini prawf asesu statudol a sut bydd Ofcom yn dehongli'r meini prawf hyn wrth asesu ceisiadau.

3.3 Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, a dogfennau gofynnol eraill yw **5pm ddydd Mercher 10 Rhagfyr 2025**. Dylai rhannau cyfrinachol y ffurflen gais, a'r rhannau nad ydyn nhw'n gyfrinachol, gael eu hanfon dros e-bost i: smallscaleDAB@ofcom.org.uk. Dylid labelu llinell pwnc yr e-bost yn glir fel hyn: **"[Enw'r ymgeisydd] application for SSDAB mux licence: [ardal y drwydded]**." Bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn cael ei orfodi'n llym, felly fe'ch cynghorir i gyflwyno eich cais mewn da bryd er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw broblemau posibl wrth ei ddanfon. Dylech gael ateb awtomatig gan smallscaleDAB@ofcom.org.uk yn cadarnhau bod Ofcom wedi derbyn eich e-bost. Os na fyddwch yn cael ymateb, mae'n bosib na fydd eich cais wedi cael ei dderbyn a dylech gysylltu â Chanolfan Gyswllt Ofcom ar 0300 123 3333 a gofyn i adael neges i'r tîm Trwyddedu Darlledu, a fydd yn ymateb i'ch neges cyn gynted â phosib. Sylwch mai dim ond un ymateb awtomatig y byddwch chi'n ei gael bob dydd, waeth faint o negeseuon e-bost rydych chi wedi'u hanfon i'r cyfeiriad hwn. Bydd cael un ymateb awtomatig yn cadarnhau ein bod yn derbyn eich negeseuon e-bost.

3.4 Bydd angen talu ffi ymgeisio o **£500** ar gyfer pob cais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach a gyflwynir. Ni fydd modd ad-dalu'r ffi hon mewn unrhyw amgylchiadau. Rhaid i daliadau trosglwyddiad banc electronig gyrraedd cyfrif banc Ofcom bum diwrnod gwaith, ar yr hwyraf, ar ôl i Ofcom dderbyn y ffurflen gais. Gallai methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn olygu bod y cais yn cael ei ystyried yn anghymwys. Ceir manylion llawn ynghylch sut i dalu'r ffi ymgeisio yn adran 'Ffi Ymgeisio' y canllawiau ar drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach.

## Cyflwyno ffurflen gais a ffioedd

3.5 Bydd Ofcom yn asesu ceisiadau yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol a'r meini prawf asesu statudol penodol (fel mae'r canllawiau'n eu hatgynhyrchu ac yn ymhelaethu arnynt), ac ar sail y cynigion a gyflwynir yn y ffurflen gais a gwblhawyd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y cais a gyflwynir yn gyflawn, gyda phob cwestiwn wedi cael ei ateb (neu, lle bo'n briodol, wedi'i farcio fel cwestiwn 'Amherthnasol') a'r holl wybodaeth ychwanegol

angenrheidiol (fel y cynllun technegol) wedi cael ei darparu yn ychwanegol at y ffurflen gais. Ar ôl i'r cais ein cyrraedd, ni chaiff yr ymgeisydd wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cais, na chyflwyno unrhyw ddeunyddiau newydd, heb gael cytundeb Ofcom. Ni fydd Ofcom yn cytuno ar unrhyw ddiwygiad y mae'n credu a fyddai'n annheg i unrhyw ymgeisydd arall sy'n gwneud cais am y drwydded.

3.6 Wrth asesu ceisiadau, mae'n bosibl y bydd Ofcom yn gofyn am eglurhad a/neu'n gofyn i'r ymgeisydd ymhelaethu ar gynigion mewn unrhyw gais, ac yn gofyn i'r ymgeisydd roi gwybodaeth ychwanegol i ni.

3.7 Bydd holl adrannau'r ffurflenni cais nad ydynt yn gyfrinachol ('Rhan A') a dderbyniwn yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Wrth asesu'r ceisiadau, gall Ofcom ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law gan y cyhoedd – gellir cyflwyno sylwadau i Ofcom am y ceisiadau a gyflwynwyd drwy anfon e-bost i smallscaleDAB@ofcom.org.uk.

3.8 Ein nod yw ystyried pob cais am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a hysbysebir o fewn chwe mis i'w cyflwyno, ond mae hyn yn amodol, ymysg pethau eraill, ar nifer y ceisiadau a gyflwynir ar gyfer pob un o'r trwyddedau rydym wedi'u hysbysebu yn Rownd Wyth.

3.9 Ar ôl penderfynu dyfarnu trwydded a rhoi gwybod i'r ymgeiswyr, bydd Ofcom yn cyhoeddi'r prif ffactorau a arweiniodd at ein penderfyniad.